PWYLLGOR CRAFFU ADOLYGU POLISI A CHRAFFU PERFFORMIAD

DYDD MERCHER, 16 MAI 2018

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Walker(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Berman, Bowen-Thomson, Boyle, Cunnah, Owen Jones, Mackie a/ac McKerlich |

127 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Y Cynghorydd Murphy

128 : DATGAN BUDDIANNAU

Roedd gan yr Aelodau gyfrifoldeb dan Erthygl 16 Cod Ymddygiad yr Aelodau i ddatgan unrhyw fuddiant ac i gwblhau ffurflenni Buddiant Personol ar ddechrau'r eitem agenda dan sylw.

129 : COFNODION

Cymeradwywyd a llofnodwyd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 18 Ebrill 2018 ac 18 Ebrill 2018 – Galw i Mewn fel cofnod cywir.

130 : STRATEGAETH Y GWEITHLU

Croesawodd y Cadeirydd y canlynol:

- Yr Aelod Cabinet dros Gyllid, Moderneiddio a Pherfformiad – y Cynghorydd Christopher Weaver;
- Philip Lenz, Prif Reolwr Adnoddau Dynol;
- Tracey Thomas, Partner Pobl Adnoddau Dynol

Dywedodd y Cadeirydd wrth y Pwyllgor fod ganddo gyfrifoldeb yn rhan o'r Cylch Gorchwyl dros graffu polisïau Adnoddau Dynol y Cyngor. Roedd yr eitem hon yn gyfle o graffu'r gwaith o ddatblygu Strategaeth Gweithlu'r Cyngor 2018-2021. Disgwyliwyd i'r Strategaeth gael ei hystyried gan y Cabinet ym mis Mehefin 2018 ac roedd yn cael ei chynllunio a'i datblygu ac roedd ymgynghoriadau'n cael eu cynnal arni ar hyn o bryd.

Gofynnodd y Cadeirydd i'r Cynghorydd Weaver wneud datganiad.

Esboniodd y Cynghorydd Weaver fod y rhaglen yn cael ei adnewyddu yn unol â blaenoriaethau Uchelgais Prifddinas a'r Cynllun Corfforaethol. Byddai'r Strategaeth yn cefnogi materion Sgiliau a Diwylliannol, Cynllunio Dilyniant, Dysgu a Datblygu, Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ac Absenoldeb Salwch. Cafodd y rhain eu cynnwys yn y 5 Blaenoriaeth y byddai'r Strategaeth yn canolbwyntio arnynt.

Gwrandawodd y Pwyllgor ar gyflwyniad gan Tracey Thomas a oedd yn nodi'r canlynol:

- *Prif flaenoriaeth Strategaeth y Gweithlu*

- *Uchelgais Prifddinas – Datblygu'r Gweithlu ac Ymgysylltu â Staff*
- *Proffil Cyfredol y Gweithlu (1)*
- *Proffil Cyfredol y Gweithlu (2)*
- *Blaenoriaeth Strategaeth y Gweithlu*
  - *Cydraddoldeb ac Amrywiaeth*
  - *Cynllunio'r Gweithlu.*
  - *Dysgu a Datblygu*
  - *Ymgysylltu â Chyflogeion ac Undebau Llafur*
  - *Iechyd a Llesiant*
- *Ymgynghori ar y Strategaeth*

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion am y cyflwyniad gan wahodd cwestiynau gan y Pwyllgor.

Roedd y Pwyllgor yn awyddus i ddysgu am yr hyn sy'n newydd yn y Strategaeth.

Esboniodd y Swyddogion fod Pecyn Cymorth Cynllunio'r Gweithlu'n cefnogi'r Strategaeth, nid oedd proses ffurfiol. Roedd yn hanfodol fod y Cyngor yn cyflawni blaenoriaethau wedi'u nodi yn ei Uchelgais Prifddinas, ynghyd ag adeiladau ar flaenoriaeth Iechyd a Llesiant a chyflawni Safon Aur. Roedd denu pobl ifanc i'r sefydliad yn hanfodol i ddatblygu a chreu cyfleoedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Roedd Trosglwyddo Gwybodaeth hefyd yn hollbwysig i gefnogi'r sefydliad wrth symud ymlaen a rhannu gwybodaeth i gynorthwyo'r cof corfforaethol.

Roedd y Pwyllgor o'r farn nad yw 45 oed yn eithriadol ac roedd tystiolaeth fod gan awdurdodau lleol eraill ystadegau tebyg mewn perthynas â phroffil oedran y gweithlu.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor mai dull cyfannol oedd hyn sy'n gwella perfformiad ac yn ymgysylltu â staff i ddatblygu syniadau a mentrau newydd. Dylai'r sefydliad adlewyrchu'r gymuned mae'n ei gwasanaethu ac yn gwella'r rhyngwyneb cwsmeriaid. Roedd yn gweithio ar ganlyniadau o'r Arolwg Staff ac yn sicrhau bod y Cyngor yn bwrw ei dargedau yn unol â chyfyngiadau cyllideb.

Tynnodd Aelodau o'r Pwyllgor sylw at recriwtio a chadw a gofynnon nhw a yw unrhyw wasanaethau penodol wedi profi trafferthion o ran recriwtio, ac os felly a yw'r problemau hyn wedi'u cysylltu â gweithwyr cymdeithasol. Hefyd, pa gynlluniau oedd ar waith i gefnogi rhannau o'r gweithlu oedd yn cael trafferthion posibl o ganlyniad i BREXIT.

Dywedodd y Swyddogion yr eir i'r afael â recriwtio a chadw trwy broses Cynllunio'r Gweithlu. Roedd adrannau'n asesu eu gweithlu craidd ac yn edrych ar strategaethau recriwtio a chadw. Mae materion mewn perthynas â staff Gwaith Cymdeithasol wedi'u nodi a gellid eu gweld bellach yn y Gwasanaethau Oedolion. Roedd strategaethau'n cael eu datblygu i gefnogi staff ac roedd gwaith ar y gweill mewn partneriaeth â phrifysgolion, trefnu cynlluniau i hyfforddeion a chefnogi arferion rhannu swyddi i wella momentwm. Roedd cyfweliadau gadael ar waith a dylid defnyddio'r data o'r cyfweliadau hynny fel offeryn dysgu a datblygu.

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod y Cyngor yn defnyddio dull cyson ym mhob rhan o'r sefydliad ar gyfer recriwtio a chadw ond roedd rhaid cydnabod bo y Gwasanaethau Cymdeithasol yn wynebu heriau gwahanol i'r rhai hynny y mae adrannau eraill y Cyngor yn eu hwynebu.

Roedd pryderon gan y Pwyllgor fod bylchau yn adnoddau'r tîm AD i ddadansoddi data wedi'i gasglu gan gyfarwyddiaethau. Hefyd, sut gellir dadansoddi'r data i fesur datblygiad, cefnogi'r gwaith o gadw staff, a sut byddai'r strategaeth yn delio gyda phatrymau gwaith sy'n newid a newidiadau technolegol.

Esboniwyd i'r Aelodau fod y Pecyn Cymorth yn cynnig darlun o sut mae angen i'r gweithlu newid ac i adeiladu ar flaenoriaethau yn y Strategaeth.

Rhoddwyd sicrwydd i'r Aelodau fod y Strategaeth hon yn adeiladu ar waith blaenorol wedi'i wneud ond hefyd wrth roi'r agenda Digidol ar waith a datblygu diwylliant i hyrwyddo hyn.

Tynnodd y Pwyllgor sylw at dudalen 24 a gofynnodd am fwy o wybodaeth ar "Nodi'r Bwlch". Mewn ymateb, esboniodd y Swyddogion mai menter ar y cyd oedd hon rhwng Adnoddau Dynol a'r tîm Datblygu Sefydliadol i ddeall cynlluniau busnes a siapio'r cyfeiriad teithio. Mae'r broses wedi'i threialu, gyda 2 weithdy i gael adborth a sefydlu canlyniadau a chynllunio gweithredu ar lefel ehangach.

Roedd y Pwyllgor o'r farn y dylai cefnogaeth bellach gael ei chyfeirio at y gwaith o ymgysylltu â staff, dylai cymorth cyngor fod yn gyson ym mhob rhan o'r sefydliad a dylid sefydlu dull wyneb yn wyneb.

Rhoddodd y Swyddogion sicrwydd i'r Pwyllgor fod y rhaglen ymgysylltu â staff yn cynnwys sioeau teithio, gan ymestyn i bob adran. Roedd hyn yn cynnwys digwyddiadau tîm a chefnogaeth a chyngor gan Genhadon. Roedd yr Arolwg Staff yn un rhan o'r rhaglen.

Gofynnodd Aelodau o'r Pwyllgor am aelodaeth gyda Rhwydweithiau Cyflogeion ac roedd pryderon ganddynt fod y Cyngor wedi canslo ei aelodaeth gyda Stonewall.

Rhoddwyd sicrwydd i'r Pwyllgor fod y Rhwydweithiau Cyflogeion yn werthfawr ac yn cynnwys LGBT, Rhwydwaith y Merched, BAEM, Stonewall a Rhwydwaith y Gofalwyr. Gellir gweld gwaith cadarnhaol o ganlyniad i'r rhwydweithiau hyn ac arfer gwych. Roedd brand Stonewall yn cael ei hyrwyddo ac yn rhagweithiol mewn digwyddiadau.

Gofynnodd Aelodau o'r Pwyllgor a yw staff yn cael eu gwobrwyo ac â mynediad at gyfleusterau hamdden y ddinas. Mewn ymateb, dywedwyd wrth yr Aelodau fod amrywiaeth o gystadlaethau yn cael eu hysbysebu ar Fewnrwyd y Cyngor, ynghyd â chynigion hyrwyddol.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor nad oedd cymaint o gyflogeion anabl wedi'u nodi y Pecyn Cymorth. Mae hyn gan fod 82% heb nodi eu hanghenion.

Tynnodd Aelodau o'r Pwyllgor sylw at nifer y siaradwyr Cymraeg yn y sefydliad a sut y dylai hyn drio i adlewyrchu targed Llywodraeth Cymru. Mewn ymateb, dywedodd y Swyddogion fod nifer o gyrsiau Cymraeg ar gael i staff sy'n cynnwys Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg (Gorfodol), a Chyrsiau Cymraeg Dwys. Roedd sawl swydd hefyd wedi'u hysbysebu'n rhai Cymraeg Hanfodol.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor am y newid diwylliant ar gyfer Iechyd a Llesiant. Gan fod technoleg newydd yn cael ei chyflwyno, roedd staff yn gweithio'n fwy ystwyth ac

roedd rheolwyr yn newid eu barn i ganolbwyntio ar ganlyniadau, nid presenoldeb. Roedd camau bach yn cael eu cyflwyno ac roedd newid yn cael ei ddatblygu ym mhob rhan o'r sefydliad.

PENDERFYNWYD: CYTUNODD y Pwyllgor fod y Cadeirydd yn ysgrifennu ar ran y Pwyllgor at yr Aelod Cabinet er mwyn cyfleu eu sylwadau a'u harsylwadau.

131 : DATBLYGU MASNACHOL GWASANAETHAU TRAFNIDIAETH CANOLOG

Croesawodd y Cadeirydd y canlynol:

- Y Cynghorydd Russell Goodway, Aelod Cabinet, Buddsoddi a Datblygu;
- Tara King, Cynorthwy-ydd Cynorthwyol Masnachol a Chydweithredu
- David Lowe, Rheolwr Gweithredol

Dywedodd y Cadeirydd fod rhan ar graffu dull y Cyngor o wella'r ffordd mae'n darparu ei wasanaethau yng Nghylch Gorchwyl y Pwyllgor. Roedd hyn yn gyfle i graffu ar waith datblygu polisïau ac adroddiad cynnydd ar gynigion drafft y Cyngor i ddatblygu ei Wasanaethau Trafnidiaeth Canolog yn fasnachol. Ym mis Mehefin 2018, byddai'r Cyngor yn ystyried crynodeb o'r materion y mae'r gwasanaeth yn eu hwynebu ac amlinelliad o'r dull wedi'i gynnig i gynyddu incwm ar gyfer yr ardaloedd hynny. Cynigiwyd i'r Pwyllgor gyflwyniad llawn ar y sefyllfa hyd yn hyn a chyfle i gyflwyno ein sylwadau cyn iddo gael ei ystyried gan y Cabinet.

Gwahoddodd y Cadeirydd y Cynghorydd Russell Goodway i wneud datganiad.

Esboniodd y Cynghorydd Goodway fod y Weinyddiaeth wedi trio cynnwys rhywfaint o fasnacheiddiwch yn y gwasanaeth hwn fel ateb posibl ond nid yw wedi creu incwm. Felly dylid ystyried prosesau gwahanol i addasu model gwahanol mewn partneriaeth â'r sector preifat.

Gwrandawodd y Pwyllgor ar gyflwyniad a oedd yn nodi'r prif bwyntiau canlynol:

- *Cyflwyno i'r GTC*
- *Meysydd Canolbwynt Strategol*
- *Cydymffurfiaeth 1*
- *Cydymffurfiaeth 2*
- *Technoleg Newydd*
- *Rhaglen Adnewyddu Ffydau*
- *Mantoli Cyllidebau'r Gwasanaeth*
- *Datblygu Masnachol*
- *Partneriaethau Masnachol*
- *Llywodraethu*

Gofynnodd y Pwyllgor am y £8.6M a'r model arall.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor, er bod gweinyddiaethau blaenorol wedi defnyddio modelau cyflawni amgen, fod penderfyniad polisi wedi'i wneud i gadw gwasanaethau'n fewnol. Mae angen edrych ar fodelau gweithredu eraill gan nad yw'r gwasanaeth cyfredol yn cyflawni'r canlyniadau angenrheidiol. Roedd partneriaeth Preifat Cyhoeddus bosibl yn cael ei brofi.

Roedd y Pwyllgor yn awyddus i ddysgu faint o'r gwasanaeth fyddai'r cael ei berchen yn breifat.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod y ffigur yn cynnwys y costau cyffredinol. Rhoddwyd amlinelliad o'r gwasanaeth yn edrych ar y gwahaniaeth rhwng y gwaith o weithredu'r fflyd a phrynu'r offer trwy'r gwasanaeth caffael. Trafodwyd yr elfen cynnal a chadw, gan gynnwys y costau cyffredinol
Gofynnodd Aelodau o'r Pwyllgor am y dadansoddiad o'r £8.6M ac a oedd modd lleihau'r swm hwnnw.

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod pob rhan o'r gwasanaeth wedi'i herio o ran cyllideb 2018/19. Byddai uned incwm ychwanegol yn fwy effeithlon, roedd achos busnes wedi'i sefydlu a gyflwynodd arloesedd.

Roedd projectau meincnodi wedi'u hystyried, gan fod rhywfaint o'r sylfaen sgiliau wedi'i golli ac roedd yn hanfodol i uwchsgilio ar yr adeg hon i gefnogi costau cynnal a chadw. Roedd y fflyd gwastraff wedi'i brydlesu ac atgyweiriwyd materion cynnal a chadw mwy gan y cwmni prydlesu. Gellid delio â mân waith atgyweirio yn y gweithdy.

Dysgodd y Pwyllgor nad oedd yr Adran Priffyrdd yn gyfrifol am dalu am y gwaith o gynnal a chadw'r cerbydau. Cafodd tanwydd a chostau eu hailgyfeirio yn ôl i'r Gwasanaeth Trafnidiaeth Canolog Dyma fater y gellid ei ystyried yn y dyfodol ar gyfer ailgyfeirio costau i adrannau eraill.

Awgrymodd Aelodau o'r Pwyllgor fod y Gwasanaethau MOT yn cael eu hysbysebu i gynyddu refeniw.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod swyddogion yn hyrwyddo'r gwasanaeth MOT i staff a bod atgyweiriadau hefyd ar gael. Aethpwyd i'r afael â'r defnydd o gerbydau, ynghyd ag offer GPS cerbydau gan fod rhai'n cael eu tracio. Nodwyd bod rhesymau dilys dros ddefnyddio cerbydau gollwng hallt dim ond 20% o'r amser yn ystod y flwyddyn.

Clywodd y Pwyllgor fod materion ynghylch pwysau, yn enwedig pan fo toriadau i'r gyllideb yn canolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau statudol. Roedd risgiau wedi'u cysylltu â chostau atgyweirio a pha mor aml oedd y cerbydau hyn ar y ffordd. Roedd rheoli'r fflyd a'r defnydd optimwm o gerbydau yn hanfodol ac felly yr awgrym i ymestyn gweithgarwch ar gyfer gwasanaethau allanol. Gallai partner Masnachol rannu gweithgarwch gyda'r risg yn cael ei symud i'r partner.

Dywedodd y Pwyllgor nad oedd Partner Masnachol wedi'i nodi eto, ond bod model wedi'i sefydlu.

Trafododd y Pwyllgor y mathau gwahanol o danwyddau sydd ar gael i gefnogi'r gwasanaeth megis modelau hydrogen/electronig. Roedd hefyd awgrym bod yr adran yn ystyried gwasanaethu cerbydau Motorhome.

Parhaodd y Pwyllgor i drafod y mecanweithiau codi tâl ar gyfer cerbydau a sut gellir eu hailgyfeirio i'r adrannau priodol.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod y broses wedi'i chyfyngu o ran amser a bod targed o 3-5 blynedd wedi'i bennu.

PENDERFYNWYD: CYTUNODD y Pwyllgor fod y Cadeirydd yn ysgrifennu ar ran y Pwyllgor at yr Aelod Cabinet er mwyn cyfleu eu sylwadau a'u harsylwadau.

132 : RHEOLI'R YSTÂD DAN FODEL LANDLORD CORFFORAETHOL

Croesawodd y Cadeirydd Mark Jacques i'r bwrdd, Prif Swyddog Cymorth Craffu, sydd wedi bod yn cefnogi'r grŵp gorchwyl yn yr ymholiad hwn.

Gwahoddodd y Cadeirydd y Cynghorydd Joe Boyle a gadeiriodd yr ymholiad i gyflwyno canfyddiadau ac argymhellion y grŵp gorchwyl i'r Pwyllgor.

Gwrandawodd y Pwyllgor ar gyflwyniad a oedd yn nodi'r prif bwyntiau canlynol:

- *Themâu sy'n dod i'r amlwg*
- *Sicrhau ymrwymiad corfforaethol*
- *Ôl-groniad o waith cynnal a chadw a'r defnydd o asedau*
- *Strwythur gweithredol clir i Landlordiaid Corfforaethol*
- *Pwysigrwydd Landlord cadarn – Cytundebau Meddianwyr/Her Ysgolion*

Trafododd y Pwyllgor yr argymhellion.

PENDERFYNWYD: CYTUNODD y Pwyllgor ar y canlynol:

- yn amodol ar unrhyw sylwadau wedi'u gwneud gan y Pwyllgor i'w hystyried gan y Cabinet cyn gynted â phosibl.

133 : ARWEINYDDIAETH CWSMERIAID

Ystyriodd y Pwyllgor adroddiad drafft terfynol Ymholiad Gorchwyl a Gorffen y Pwyllgor ar Arweinyddiaeth Cwsmeriaid.

Trafododd y Pwyllgor y Prif Ganfyddiadau a'r Argymhellion.

PENDERFYNWYD: CYTUNODD y Pwyllgor ar y canlynol:

- yn amodol ar unrhyw sylwadau wedi'u gwneud gan y Pwyllgor i'w hystyried gan y Cabinet cyn gynted â phosibl.

134 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Dydd Mercher 20 Mehefin 2018 am 4:30pm

Daeth y cyfarfod i ben am 6.45 pm